



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 1358 (Cy. 86 )

2001 No. 1358 (W. 86 )

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**THE NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a  
Chyfarpar) (Cymru) 2001

National Health Service (Charges  
for Drugs and Appliances) (Wales)  
Regulations 2001

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note does not form part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli, gyda diwygiadau, Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 1989 fel y'u diwygiwyd. Maent yn darparu ar gyfer codi a chasglu ffioedd am gyffuriau a chyfarpar sy'n cael eu cyflenwi o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Gwneir darpariaeth ar gyfer ffioedd deintyddol a ffioedd optegol ar wahân.

These Regulations revoke and replace, with amendments, the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Regulations 1989 as amended. They provide for the making and recovery of charges for drugs and appliances supplied under the National Health Service Act 1977. Provision for dental charges and optical charges is made separately.

Gan hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer ffioedd am gyffuriau a chyfarpar sy'n cael eu cyflenwi gan feddygon a fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau fferyllol (**rheoliadau 3 a 4**) a chan Awdurdodau Iechyd ac ymddiriedolaethau NHS (**rheoliad 5**) ac mewn canolfannau cerdded i mewn (**rheoliad 6**) a phan gânt eu cyflenwi yn unol â chyfarwyddiadau grwpiau cleifion (**rheoliad 7**).

Accordingly, these Regulations provide for charges for drugs and appliances supplied by doctors and chemists providing pharmaceutical services (**regulations 3 and 4**) and by Health Authorities and NHS trusts (**regulation 5**) and at walk-in centres (**regulation 6**) and when they are supplied in accordance with patient group directions (**regulation 7**).

Gwneir darpariaeth hefyd mewn perthynas ag achosion lle mae awdurdod lleol yn gweithredu mewn trefniadau partneriaeth gydag un o gyrff yr NHS (**rheoliad 12**).

Provision is also made in relation to cases where a local authority acts in partnership arrangements with an NHS body (**regulation 12**).

Mae'r Rheoliadau'n darparu hefyd ar gyfer esemptiadau rhag talu ac ar gyfer peidio â chodi tâl mewn achosion penodol (**rheoliad 8**), ar gyfer rhoi tystysgrifau esemptio (**rheoliad 9**), ar gyfer rhoi tystysgrifau rhagdal (**rheoliad 10**) ac ar gyfer ad-dalu ffioedd mewn achosion penodol (**rheoliad 11**).

The Regulations also provide for exemption and remission from charges in certain cases (**regulation 8**), for the issue of exemption certificates (**regulation 9**), for the issue of pre-payment certificates (**regulation 10**) and for repayment of charges in certain cases (**regulation 11**).

2001 Rhif 1358 (Cy. 86 )

2001 No. 1358 (W. 86 )

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU****NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a  
Chyfarpar) (Cymru) 2001National Health Service (Charges  
for Drugs and Appliances) (Wales)  
Regulations 2001*Wedi'u gwneud**29 Mawrth 2001**Made**29th March 2001**Yn dod i rym**1 Ebrill 2001**Coming into force**1st April 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77, 83, 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(a) a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:-

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred it by sections 77, 83, 83A and 126(4) of, and paragraph 1 of Schedule 12 to, the National Health Service Act 1977(a) hereby makes the following Regulations:-

**Enwi, cychwyn a chymhwys**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001, a deuant i rym as 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Citation, commencement and application**

1.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) Regulations 2001, and shall come into force on 1st April 2001.

(2) These regulations apply to Wales only.

**Dehongli**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall -

ystyr "anabledd wedi'i dderbyn" ("*accepted disablement*") yw anaf neu glefyd corfforol neu feddyliol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn eu

**Interpretation**

2.-(1) In these Regulations, unless the context otherwise requires -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service Act 1977;

(a) 1977 p.49. Gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("*Deddf 1990*"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

Diwygiwyd adran 83 gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("*Deddf 1995*"), Atodlen 1, paragraff 39 a chan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48), Atodlen 8, Rhan 1.

Diwygiwyd adran 83A gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), Atodlen 2, paragraff 6; gan Ddeddf 1990, Atodlen 9, paragraff 18(5); gan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 40 a chan erthygl 2 o O.S.1998/2385.

Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("*Deddf 1999*"), Atodlen 4, paragraff 37(6).

Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau uchod eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

(a) 1977 c.49. See section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c. 19) ("*the 1990 Act*"), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Section 83 was amended by the Health Authorities Act 1995 (c.17) ("*the 1995 Act*"), Schedule 1, paragraph 39 and by the Health and Social Security Act 1984 (c.48), Schedule 8, Part 1.

Section 83A was amended by the Health and Medicines Act 1988 (c.49), Schedule 2, paragraph 6; by the 1990 Act, Schedule 9, paragraph 18(5); by the 1995 Act, Schedule 1, paragraph 40 and by article 2 of S.I.1998/2385.

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2) and by the Health Act 1999 (c.8) ("*the 1999 Act*"), Schedule 4, paragraph 37(6).

The functions of the Secretary of State under the above mentioned powers are transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, as amended by section 66(5) of the 1999 Act.

bod i'w priodoli i wasanaeth yn lluoedd arfog y Goron neu unrhyw wasanaeth arall a benderfynir gan y Cynulliad, neu eu bod wedi'u gwaethygu gan wasanaeth o'r fath;

ystyr "Canolfan cerdded i mewn" ("*Walk-in centre*") yw canolfan lle y mae gwybodaeth a thriniaeth am fân anhwylderau yn cael eu darparu ar gyfer y cyhoedd o dan drefniadau a wneir gan neu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "claf" ("*patient*") yw -

- (a) unrhyw berson y mae meddyg yn gyfrifol am ei driniaeth o dan ei delerau gwasanaeth neu mewn cysylltiad â chynllun peilot;
- (b) unrhyw berson sy'n gwneud cais i fferylllydd am ddarparu gwasanaethau fferyllol ac at ddibenion y Rheoliadau hyn mae'n cynnwys person sy'n gweithredu ar ran person o'r fath;
- (c) unrhyw berson sy'n gofyn am wybodaeth neu driniaeth gan Ganolfan cerdded i mewn;
- (ch) unrhyw berson sy'n gwneud cais am gael cyffur wedi'i gyflenwi yn unol â Chyfarwyddyd Grwp Cleifion;

ystyr "cyfarpar" ("*appliance*") yw cyfarpar rhedredig o fewn ystyr adran 41 o'r Ddeddf ond nid yw'n cynnwys cyfarpar atal cenhedlu;

mae "Cyfarwyddyd Grwp Cleifion" ("*Patient Group Direction*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 7(6);

mae "cyffuriau" ("*drugs*") yn cynnwys meddyginiaethau, ond nid yw'n cynnwys sylweddau atal cenhedlu;

dehonglir "cynllun peilot" ("*pilot scheme*") yn unol ag adran 1(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997(a);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "esemptiad" ("*exemption*") yw unrhyw ollyngiad a ganiateir o dan y rheoliadau hyn rhag talu ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliadau hyn;

mae "fferylllydd" ("*chemist*") yn cynnwys unrhyw berson, heblaw meddyg, sy'n darparu gwasanaethau fferyllol;

ystyr "ffurflen bresgripsiwn" ("*prescription form*") yw ffurflen a ddarperir gan Awdurdod Iechyd, ymddiriedolaeth NHS ac a roddir gan feddyg, deintydd neu nyrs sy'n rhagnodi er mwyn galluogi person i gael gwasanaethau fferyllol ac mae'n cynnwys ffurflen

"accepted disablement" ("*anabledd wedi'i dderbyn*") means physical or mental injury or disease which is accepted by the National Assembly as attributable to or aggravated by service in the armed forces of the Crown or such other service as it may determine;

"appliance" ("*cyfarpar*") means a listed appliance within the meaning of section 41 of the Act but does not include a contraceptive appliance;

"chemist" ("*fferylllydd*") includes any person, other than a doctor, providing pharmaceutical services;

"doctor" ("*meddyg*") means a registered medical practitioner;

"drugs" ("*cyffuriau*") includes medicines, but does not include contraceptive substances;

"elastic hosiery" ("*hosan elastig*") means anklet, legging, knee-cap, below-knee or thigh stocking;

"exemption" ("*esemptiad*") means any remission granted under these regulations from charges payable under these regulations;

"exemption certificate" ("*tystysgrif esemptio*") has the meaning assigned to it by regulation 9(1);

"medical list" ("*rhestr feddygol*") means the list, prepared under section 29 of the Act, of medical practitioners who have undertaken to provide general medical services;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"nurse prescriber" ("*nyrs sy'n rhagnodi*") means a nurse or health visitor of a description specified in paragraph (2);

"patient" ("*claf*") means -

- (a) any person for whose treatment a doctor is responsible under his terms of service or in connection with a pilot scheme;
- (b) any person who applies to a chemist for the provision of pharmaceutical services and includes for the purposes of these Regulations a person acting on behalf of such a person;
- (c) any person who seeks information or treatment from a Walk-in centre;
- (d) any person who applies to be supplied with a drug in accordance with a Patient Group Direction;

"Patient Group Direction" ("*Cyfarwyddyd Grw p Cleifion*") is to be construed in accordance with regulation 7(6);

---

(a) 1997 (p. 46)

bresgripsiwn a ddarperir ac a roddir gan o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban, neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "hosan elastig" ("*elastic hosiery*") yw hosan i'r pigwrn, i'r goes, i'r ben-glin, i'r goes o dan y ben-glin neu i'r glun;

ystyr "meddyg" ("*doctor*") yw ymarferydd meddygol cofrestredig;

ystyr "nyrs sy'n rhagnodi" ("*nurse prescriber*") yw nyrs neu ymwelydd iechyd o ddisgrifiad a bennir ym mharagraff (2);

ystyr "y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl" ("*the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations*") yw Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl 1988(a);

ystyr "rhestr feddygol" ("*medical list*") yw'r rhestr, a baratoir o dan adran 29 o'r Ddeddf, o ymarferwyr meddygol sydd wedi ymgymryd â darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol;

ystyr "telerau gwasanaeth" ("*terms of service*") yw'r telerau y mae gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu odanynt o dan y Ddeddf;

mae "triniaeth" ("*treatment*") yn cynnwys archwilio a diagnosisio;

mae i "tystysgrif esemptio" ("*exemption certificate*") yr ystyr a briodolir iddo gan reoliad 9(1);

mae i "tystysgrif ragdal" ("*pre-payment certificate*") yr ystyr a briodolir iddo gan reoliad 10(1).

(2) Dyma'r disgrifiad penodedig o nyrs neu ymwelydd iechyd a grybwyllir yn y diffiniad o "nyrs sy'n rhagnodi" ym mharagraff (1) -

(a) person sydd wedi'i gofrestru yn Rhan 1 neu 12 o'r gofrestr a gedwir o dan Ddeddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997(b) (y cyfeirir ati yn y paragraff hwn fel "y gofrestr broffesiynol"), sydd â chymhwyster nyrsio ardal wedi'i gofnodi yn ychwanegol yn y gofrestr broffesiynol a gedwir o dan reol 11 o Reolau Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1983(c), ac sydd, adeg archebu'r cyffur neu'r moddion rhestredig neu'r cyfarpar rhestredig -

(i) yn cael ei gyflogi fel nyrs ardal gan Awdurdod Iechyd, ymddiriedolaeth NHS

"pilot scheme" ("*cynllun peilot*") shall be construed in accordance with section 1(1) of the National Health Service (Primary Care) Act 1997(a);

"pre-payment certificate" ("*tystysgrif ragdal*") has the meaning assigned to it by regulation 10(1);

"prescription form" ("*ffurflen bresgripsiwn*") means a form provided by a Health Authority, an NHS trust and issued by a doctor, dentist or nurse prescriber to enable a person to obtain pharmaceutical services and includes a prescription form provided and issued under equivalent arrangements having effect in England, Scotland, or Northern Ireland;

"terms of service" ("*telerau gwasanaeth*") means the terms on which general medical services, general dental services, general ophthalmic services and pharmaceutical services are provided under the Act;

"the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations" ("*y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl*") means the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Regulations 1988(b);

"treatment" ("*triniaeth*") includes examination and diagnosis;

"Walk-in centre" ("*Canolfan cerdded i mewn*") means a centre at which information and treatment for minor conditions is provided to the public under arrangements made by or on behalf of the National Assembly

(2) The specified description of a nurse or health visitor mentioned in the definition of "nurse prescriber" in paragraph (1) is -

(a) a person who is registered in Part 1 or 12 of the register maintained under the Nurses, Midwives and Health Visitors Act 1997(c) (referred to below in this paragraph as "the professional register"), has a district nursing qualification additionally recorded in the professional register maintained under rule 11 of the Nurses, Midwives and Health Visitors Rule 1983(d), and is, at the time of ordering the listed drug or medicine or listed appliance -

(i) employed as a district nurse by a Health Authority, an NHS trust or by a local authority in connection with arrangements under section 31(2)(c) of the Health Act 1999(e);

(a) O.S.1988/551 fel y'i diwygiwyd gan O.S.1989/394, 517 a 614, 1990/548, 918 a 1661, 1991/557, 1992/1104, 1993/608, 1995/642 a 3252, 1996/410, 1346 a 2362, 1997/748 a 2393, 1998/2417, 1999/767, 2507 a 2840.

(b) 1997 (p.24)

(c) O.S.1983/873 y ceir diwygiadau iddo

(a) 1997 (c. 46)

(b) S.I.1988/551 as amended by S.I.1989/394, 517 and 614, 1990/548, 918 and 1661, 1991/557, 1992/1104, 1993/608, 1995/642 and 3252, 1996/410, 1346 and 2362, 1997/748 and 2393, 1998/2417, 1999/767, 2507 and 2840.

(c) 1997 (c.24)

(d) S.I.1983/873 to which there are amendments

(e) 1999 (c.8)

neu gan awdurdod lleol mewn cysylltiad â threfniadau o dan adran 31(2)(c) o Ddeddf Iechyd 1999(a);

- (ii) yn cael ei gyflogi fel nyrs gan feddyg y mae ei enw wedi'i gynnwys mewn rhestr feddygol neu sydd, ar yr adeg honno, yn helpu i gyflawni gwasanaethau meddygol personol o dan gynllun peilot; neu
- (iii) yn helpu, yn rhinwedd swydd nyrs, i ddarparu gwasanaethau canolfan cerdded i mewn;

(b) person sydd wedi'i gofrestru yn Rhan 11 o'r gofrestr broffesiynol fel ymwelydd iechyd ac sydd, adeg archebu'r cyffur neu'r moddion rhestredig neu'r cyfarpar rhestredig -

- (i) yn cael ei gyflogi fel nyrs gan Awdurdod Iechyd, ymddiriedolaeth NHS neu gan awdurdod lleol mewn cysylltiad â threfniadau o dan adran 31(2)(c) o Ddeddf Iechyd 1999;
- (ii) yn cael ei gyflogi fel nyrs gan feddyg y mae ei enw wedi'i gynnwys mewn rhestr feddygol neu sydd, ar yr adeg honno, yn helpu i gyflawni gwasanaethau meddygol personol o dan gynllun peilot; neu

(iii) yn helpu, yn rhinwedd swydd nyrs, i ddarparu gwasanaethau canolfan cerdded i mewn;

y mae nodyn wedi'i gofnodi yn erbyn ei enw (ym mhob achos) yn y gofrestr broffesiynol yn dynodi ei fod wedi ennill cymhwyster i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar ar gyfer cleifion.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn fe fydd -

- (a) cyflenwi symiau o'r un cyffur yn erbyn archeb ar un ffurflen bresgripsiwn mewn mwy nag un cynhwysydd yn cael ei drin fel cyflenwi un swm yn unig o gyffur;
- (b) cyflenwi mwy nag un cyfarpar o'r un math, ac eithrio yn achos hosanau elastig a theits, neu gyflenwi dwy neu fwy o gydrannau'r un cyfarpar, yn erbyn archeb ar un ffurflen bresgripsiwn yn cael ei drin fel cyflenwi un cyfarpar yn unig.

(4) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn neu at yr Atodlen iddynt sy'n dwyn y rhif hwnnw, ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

### Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan fferyllwyr

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i fferylllydd sy'n darparu gwasanaethau fferyllol ar gyfer claf godi a chasglu oddi wrth y claf hwnnw -

(ii) employed as a nurse by a doctor whose name is included in a medical list or who, at that time, is assisting in the performance of personal medical services under a pilot scheme; or

(iii) assisting, in the capacity of a nurse, in the provision of services walk in centre;

(b) a person who is registered in Part 11 of the professional register as a health visitor and is, at the time of ordering the listed drug or medicine or listed appliance -

(i) employed as a nurse by a Health Authority, an NHS trust or by a local authority in connection with arrangements under section 31(2)(c) of the Health Act 1999;

(ii) employed as a nurse by a doctor whose name is included in a medical list or who, at that time, is assisting in the performance of personal medical services under pilot scheme;

(iii) assisting, in the capacity of a nurse, in the provision of services at a Walk-in centre;

against whose name (in each case) is recorded in the professional register an annotation signifying that he is qualified to order drugs, medicines and appliances for patients.

(3) For the purposes of these Regulations the supply against an order on one prescription form -

(a) of quantities of the same drug in more than one container shall be treated as the supply of only one quantity of a drug;

(b) of more than one appliance of the same type, except in the case of elastic hosiery and tights, or of two or more component parts of the same appliance, shall be treated as the supply of only one appliance.

(4) Unless the context otherwise requires, any reference in these Regulations to a numbered regulation or Schedule is a reference to the regulation in, or Schedule to, these Regulations which bears that number, and any reference in a regulation to a numbered paragraph is a reference to the paragraph bearing that number in that regulation.

### Supply of drugs and appliances by chemists

3.-(1) A chemist who provides pharmaceutical services to a patient shall, subject to paragraph (3), make and recover from that patient -

(a) 1999 (p.8)

- (a) ffi o £6.00 mewn perthynas â hosan elastig, hynny yw ffi o £12.00 y pâr;
- (b) ffi o £6.00 mewn perthynas â chyflenwi pob cyfarpar arall a phob swm o gyffur.

(2) Os oes ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1), wrth wneud y taliad rhaid i'r person sy'n talu lofnodi datganiad ysgrifenedig ar y ffurflen bresgripsiwn fod y ffi berthnasol wedi'i thalu.

(3) Rhaid peidio â chodi na chasglu ffi o dan baragraff (1) -

- (a) os oes yna esemptiad o dan reoliad 8 a bod datganiad o hawl i gael esemptiad ar y ffurflen bresgripsiwn wedi'i gwblhau'n briodol gan y claf neu ar ei ran;
- (b) os oes yna hawl i beidio â thalu'r ffi o dan reoliad 3 o Reoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl a bod datganiad o hawl i beidio â thalu ar y ffurflen bresgripsiwn wedi'i gwblhau'n briodol gan y claf neu ar ei ran;
- (c) os yw'r claf yn preswyllo mewn ysgol neu sefydliad y mae eu henw wedi'i fewnosod ar y ffurflen bresgripsiwn gan feddyg o dan ei delerau gwasanaeth mewn cysylltiad â chynllun pilot.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, os oes cyffur archebir ar un ffurflen bresgripsiwn yn cael ei gyflenwi fesul rhan, bydd y ffi o £6.00 sy'n daladwy am y cyffur hwnnw yn daladwy pan gaiff y rhan gyntaf ei chyflenwi.

(5) Er gwaethaf darpariaethau ei delerau gwasanaeth, ni fydd fferylllydd o dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn perthynas ag archeb ar ffurflen bresgripsiwn onid yw'r claf yn gyntaf yn talu unrhyw ffi iddo y mae'n ofynnol ei thalu a'i chasglu o dan baragraff (1) mewn perthynas â'r archeb honno.

(6) Os yw'r claf yn gofyn felly, rhaid i fferylllydd sy'n codi ac yn casglu ffi o dan baragraff (1) roi derbynneb i'r claf am y swm a gafwyd ar y ffurflen a ddarperir at y diben sef ffurflen y mae'n rhaid iddi gynnwys ffurf datganiad i ategu cais am ad-daliad a gwybodaeth ynghylch i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.

(7) Caiff unrhyw swm a fyddai fel arall yn daladwy gan Awdurdod Iechyd i fferylllydd mewn perthynas â darparu gwasanaethau fferyllol ei leihau yn ôl swm unrhyw ffioedd y mae'n ofynnol eu codi a'u casglu o dan y darpariaethau blaenorol yn y rheoliad hwn.

#### **Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan feddygon**

4.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i feddyg sy'n darparu gwasanaethau fferyllol ar gyfer claf godi a chasglu oddi wrth y claf hwnnw -

- (a) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £6.00, that is to say a charge of £12.00, per pair;
- (b) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, a charge of £6.00.

(2) Where a charge is paid under paragraph (1), the person making the payment shall on doing so sign a declaration in writing on the prescription form that the relevant charge has been paid.

(3) No charge shall be made and recovered under paragraph (1) where -

- (a) there is exemption under regulation 8 and a declaration of entitlement to exemption on the prescription form is duly completed by or on behalf of the patient;
- (b) there is entitlement to remission of the charge under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations and a declaration of entitlement to remission on the prescription form is duly completed by or on behalf of the patient;
- (c) the patient is resident in a school or institution the name of which is inserted on the prescription form by a doctor under his terms of service or in connection with a pilot scheme.

(4) For the purposes of this regulation, where a drug ordered on a single prescription form is supplied by instalments, the charge of £6.00 payable for that drug shall be payable upon the supply of the first instalment.

(5) A chemist, notwithstanding the provisions of his terms of service, shall be under no obligation to provide pharmaceutical services in respect of an order on a prescription form unless he is first paid by the patient any charge required to be made and recovered by paragraph (1) in respect of that order.

(6) A chemist who makes and recovers a charge under paragraph (1) shall, if so required by the patient, give him [dmb1] a receipt for the amount received on the form provided for the purpose which form shall contain forms of declaration in support of an application for repayment and information as to whom an application for repayment shall be made.

(7) Any sum which would otherwise be payable by a Health Authority to a chemist in respect of the provision by him of pharmaceutical services shall be reduced by the amount of any charges which are required to be made and recovered by the preceding provisions of this regulation.

#### **Supply of drugs and appliances by doctors**

4.-(1) A doctor who provides pharmaceutical services to a patient shall, subject to paragraph (3), make and recover from that patient -

- (a) ffi o £6.00 mewn perthynas â hosan elastig, hynny yw ffi o £12.00 y pâr;
- (b) ffi o £6.00 mewn perthynas â chyflenwi pob cyfarpar arall a phob swm o gyffur.

(2) Os oes ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1), wrth wneud y taliad rhaid i'r person sy'n talu lofnodi datganiad ysgrifenedig ar y ffurflen bresgripsiwn fod y ffi berthnasol wedi'i thalu.

(3) Rhaid peidio â chodi na chasglu ffi o dan baragraff (1) -

- (a) os oes yna esemptiad o dan reoliad 8 a bod datganiad o hawl i gael esemptiad ar y ffurflen bresgripsiwn wedi'i gwblhau'n briodol gan y claf neu ar ei ran;
- (b) os oes yna hawl i beidio â thalu'r ffi o dan reoliad 3 o Reoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl a bod datganiad o hawl i beidio â thalu ar y ffurflen bresgripsiwn wedi'i gwblhau'n briodol gan y claf neu ar ei ran;
- (c) os yw'r cyffuriau neu'r cyfarpar yn cael eu cyflenwi mewn perthynas â dau neu fwy o bersonau mewn ysgol neu sefydliad lle y mae o leiaf 20 person fel rheol yn preswyllo ac o leiaf 10 ohonynt yn gleifion i'r meddyg.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, os oes cyffur archebir ar un ffurflen bresgripsiwn yn cael ei gyflenwi fesul rhan, bydd y ffi o £6.00 sy'n daladwy am y cyffur hwnnw yn daladwy pan gaiff y rhan gyntaf ei chyflenwi.

(5) Ni fydd meddyg o dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau fferyllol y mae'n ofynnol codi a chasglu ffi mewn perthynas â hwy o dan baragraff (1) onid yw'r claf yn gyntaf yn talu swm y ffi honno iddo.

(6) Os yw'r claf yn gofyn felly, rhaid i feddyg sy'n codi ac yn casglu ffi o dan baragraff (1) roi derbynneb i'r claf am y swm a gafwyd ar y ffurflen a ddarperir at y diben sef ffurflen y mae'n rhaid iddi gynnwys ffurf datganiad i ategu cais am ad-daliad a gwybodaeth ynghylch i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.

(7) Caiiff unrhyw swm a fyddai fel arall yn daladwy gan Awdurdod Iechyd i feddyg mewn perthynas â darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol neu wasanaethau meddygol personol mewn cysylltiad â chynllun peilot ei leihau yn ôl swm y ffioedd y mae'n ofynnol eu codi a'u casglu o dan baragraff (1).

(8) Ni fydd dim yn y rheoliad hwn yn awdurdodi talu ffi os yw'r cyffur neu'r cyfarpar a gyflenwir naill ai -

- (a) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £6.00, that is to say a charge of £12.00, per pair;
- (b) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, a charge of £6.00.

(2) Where a charge is paid under paragraph (1), the person making the payment shall on doing so sign a declaration in writing on the prescription form that the relevant charge has been paid.

(3) No charge shall be made and recovered under paragraph (1) where -

- (a) there is exemption under regulation 8 and a declaration of entitlement to exemption on the prescription form is duly completed by or on behalf of the patient;
- (b) there is entitlement to remission of the charge under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations and a declaration of entitlement to remission on the prescription form is duly completed by or on behalf of the patient;
- (c) the drugs or appliances are supplied in respect of two or more persons in a school or institution in which at least 20 persons are normally resident of whom at least 10 are his patients.

(4) For the purposes of this regulation, where a drug ordered on a single prescription form is supplied by instalments, the charge of £6.00 payable for that drug shall be payable upon the supply of the first instalment.

(5) A doctor shall be under no obligation to provide pharmaceutical services for which a charge is required to be made and recovered by paragraph (1) unless he is first paid the amount of that charge by the patient.

(6) A doctor who makes and recovers a charge under paragraph (1) shall, if so required by the patient, give him a receipt for the amount received on the form provided for the purpose which form shall contain forms of declaration in support of an application for repayment and information as to whom an application for repayment shall be made.

(7) Any sum which would otherwise be payable by a Health Authority to a doctor in respect of the provision by him of general medical services or personal medical services in connection with a pilot scheme shall be reduced by the amount of charges which are required to be made and recovered under paragraph (1).

(8) Nothing in this regulation shall authorise the payment of a charge where the drug or appliance supplied either -

- (a) yn angenrheidiol ar gyfer triniaeth ar unwaith ac nad oes archeb ar gyfer y cyffur neu'r cyfarpar wedi'i gwneud ar ffurflen bresgripsiwn; neu
- (b) yn cael eu rhoi i'r claf, neu eu rhoi ar y claf, gan y meddyg yn bersonol.

**Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan Awdurdodau Iechyd ac ymddiriedolaethau NHS**

5.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), rhaid i Awdurdod Iechyd neu ymddiriedolaeth NHS sy'n cyflenwi cyffuriau i glaf at ddibenion ei driniaeth, i'w rhoi heblaw mewn ysbyty, neu gyfarpar, godi a chasglu oddi wrth y claf -

- (a) ffi o £6.00 mewn perthynas â hosan elastig, hynny yw ffi o £12.00 y pâr;
- (b) mewn perthynas â chyfarpar a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1, y ffi a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno;
- (c) ffi o £12.00 mewn perthynas â theits;
- (ch) ffi o £6.00 mewn perthynas â chyflenwi pob cyfarpar arall a phob swm o gyffur.

(2) Os oes ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1), wrth wneud y taliad rhaid i'r person sy'n talu lofnodi datganiad ysgrifenedig ar y ffurflen bresgripsiwn fod y ffi berthnasol wedi'i thalu.

(3) Rhaid peidio â chodi na chasglu ffi o dan y rheoliad hwn oddi wrth glaf sy'n esempt -

- (a) o dan baragraff 1(1)(a) i (d) o Atodlen 12 i'r Ddeddf.
- (b) o dan reoliad 8, neu
- (c) am fod gan y claf hawl i beidio â thalu ffi o dan reoliad 3 o Reoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl,

ac sydd, yn yr achos a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(c) o Atodlen 12 i'r Ddeddf ac yn yr achosion a ddisgrifir yn is-baragraffau (b) ac (c), yn cwblhau datganiad o hawl i gael esemptiad o'r fath neu i beidio â thalu ffi ac yn darparu unrhyw dystiolaeth o'r hawl y mae'r Awdurdod Iechyd neu'r ymddiriedolaeth NHS yn gofyn yn rhesymol amdani.

(4) O dan y rheoliad hwn, caiff rhan o ffi ei chodi a'i chasglu oddi wrth glaf y mae ganddo hawl i beidio â thalu rhan o'r ffi o dan reoliad 8(4) os caiff datganiad ysgrifenedig ei ddarparu bod y rhan berthnasol o'r ffi wedi'i thalu ynghyd â datganiad o'r hawl ac unrhyw dystiolaeth arall o'r hawl i beidio â thalu rhan o'r ffi y gofynnir amdani.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, os oes cyffur a archebir ar un cyfarwyddyd ysgrifenedig yn cael ei gyflenwi fesul rhan, bydd y ffi o £6.00 sy'n daladwy am y cyffur hwnnw yn daladwy pan gaiff y rhan gyntaf ei chyflenwi.

- (a) is needed for immediate treatment and no order for the drug or appliance is made on a prescription form; or
- (b) is administered or applied to the patient by the doctor personally.

**Supply of drugs and appliances by Health Authorities and NHS trusts**

5.-(1) A Health Authority or an NHS trust which supplies to a patient for the purposes of his treatment, drugs, otherwise than for administration at a hospital, or appliances, shall, subject to paragraphs (3) and (4), make and recover from the patient -

- (a) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £6.00, that is to say a charge of £12.00 per pair;
- (b) in respect of an appliance specified in column (1) of Schedule 1, the charge specified in relation to it in column (2) of that Schedule;
- (c) in respect of tights, a charge of £12.00;
- (d) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, a charge of £6.00.

(2) Where a charge is paid under paragraph (1) the person making the payment shall on doing so sign a declaration in writing that the relevant charge has been paid.

(3) No charge shall be made and recovered under this regulation from a patient who is exempt -

- (a) under paragraph 1(1)(a) to (d) of Schedule 12 to the Act.
- (b) under regulation 8, or
- (c) by reason of being entitled to remission under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations,

and who, in the case described in paragraph 1(1)(c) of Schedule 12 to the Act and in the cases described in sub-paragraphs (b) and (c), completes a declaration of entitlement to such exemption or remission and provides such evidence of entitlement as the Health Authority or NHS trust may reasonably require.

(4) A partially remitted charge shall be made and recovered under this regulation from a patient who is entitled to partial remission under regulation 8(4) if a declaration in writing is provided that the relevant part of the charge has been paid and a declaration of entitlement and such other evidence of entitlement, to partial remission as may be required, is provided.

(5) For the purposes of this regulation, where a drug ordered on a single written direction is supplied by instalments, the charge of £6.00 payable for that drug shall be payable upon the supply of the first instalment.



(6) Os yw'r claf yn gofyn felly, rhaid i Awdurdod Iechyd neu ymddiriedolaeth NHS sy'n codi ac yn casglu ffi o dan y rheoliad hwn roi derbynneb i'r claf am y swm a gafwyd ar ffurflen y mae'n rhaid iddi gynnwys ffurf datganiad i ategu cais am ad-daliad a gwybodaeth ynghylch i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.

### **Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar mewn Canolfannau cerdded i mewn**

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), os oes cyffuriau neu gyfarpar yn cael eu cyflenwi i glaf at ddibenion ei driniaeth gan feddyg neu gan nyrs sy'n rhagnodi mewn Canolfan cerdded i mewn, rhaid i'r Awdurdod Iechyd neu'r ymddiriedolaeth NHS neu berson arall sy'n gyfrifol am reoli'r Ganolfan, ac eithrio yn achos cyffuriau sy'n cael eu rhoi neu gyfarpar sy'n cael ei ffitio yn y Ganolfan godi a chasglu oddi wrth y claf -

- (a) ffi o £6.00 mewn perthynas â hosan elastig, hynny yw ffi o £12.00 y pâr;
- (b) ffi o £6.00 mewn perthynas â chyflenwi pob cyfarpar arall a phob swm o gyffur.

(2) Os oes ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1), wrth wneud y taliad rhaid i'r person sy'n talu lofnodi datganiad ysgrifenedig ar y ffurflen bresgripsiwn fod y ffi berthnasol wedi'i thalu.

(3) Rhaid peidio â chodi na chasglu ffi o dan y rheoliad hwn oddi wrth glaf sy'n esempt -

- (a) o dan baragraff 1(1)(a) i (d) o Atodlen 12 i'r Ddeddf.
- (b) o dan reoliad 8, neu
- (c) am fod gan y claf hawl i beidio â thalu ffi o dan reoliad 3 o Reoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chosi Tâl,

ac sydd, yn yr achos a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(c) o Adodlen 12 i'r Ddeddf ac yn yr achosion a ddisgrifir yn is-baragraffau (b) ac (c), yn cwblhau datganiad o hawl i gael esemptiad o'r fath neu i beidio â thalu ffi ac yn darparu unrhyw dystiolaeth o'r hawl y mae'r Awdurdod Iechyd neu'r ymddiriedolaeth NHS neu berson arau sy'n darparu'r cyffur neu'r cyffarpar yn gofyn yn rhesymol amdani.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, os oes cyffur a archebir ar un cyfarwyddyd ysgrifenedig yn cael ei gyflenwi fesul rhan, bydd y ffi o £6.00 sy'n daladwy am y cyffur hwnnw yn daladwy pan gaiff y rhan gyntaf ei chyflenwi.

(6) Os yw'r claf yn gofyn felly, rhaid i Awdurdod Iechyd neu ymddiriedolaeth NHS neu'r person arall sy'n codi ac yn casglu ffi o dan y rheoliad hwn roi derbynneb i'r claf am y swm a gafwyd ar ffurflen y mae'n rhaid iddi gynnwys ffurf datganiad i ategu cais am ad-daliad a gwybodaeth ynghylch i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.

(6) A Health Authority or NHS trust which makes and recovers a charge under this regulation shall, if so required by the patient, give him a receipt for the amount received on a form which shall contain forms of declaration in support of an application for repayment and information as to whom an application for repayment shall be made.

### **Supply of drugs and appliances at Walk-in centres**

6.-(1) Where drugs or appliances are supplied to a patient, for the purposes of his treatment by a doctor or nurse prescriber at a Walk-in Centre the Health Authority or NHS trust or other person responsible for the management of the Centre shall, except in the case of drugs administered or appliances fitted at the Centre and subject to paragraphs (3) and (4), make and recover from the patient -

- (a) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £6.00, that is to say a charge of £12.00 per pair;
- (b) in respect of the supply of each other appliance and each quantity of a drug, a charge of £6.00.

(2) Where a charge is paid under paragraph (1), the person making the payment shall on doing so sign a declaration in writing that the relevant charge has been paid.

(3) No charge shall be made and recovered under this regulation from a patient who is exempt -

- (a) under paragraph 1(1)(a) to (d) of Schedule 12 to the Act;
- (b) under regulation 8, or
- (c) by reason of being entitled to remission under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations,

and who, in the case described in paragraph 1(1)(c), of Schedule 12 to the Act and in the cases described in sub-paragraphs (b) and (c), completes a declaration of entitlement to such exemption or remission and provides such evidence of entitlement as the Health Authority or NHS trust or other person supplying the drug or appliance may reasonably require.

(4) For the purposes of this regulation, where a drug ordered on single written direction is supplied by instalments, the charge of £6.00 payable for that drug shall be payable upon the supply of the first instalment.

(5) A Health Authority or NHS trust or other person making and recovering a charge under this regulation shall, if so required by a patient, give him a receipt for the amount received on a form which shall contain forms of declaration in support of an application for repayment and information as to whom an application for repayment shall be made.

## Cyflenwi cyffuriau o dan Gyfarwyddiadau Grwpiau Cleifion

7.-(1) Os oes cyffuriau'n cael eu cyflewni i glaf yn unol â Chyfarwyddyd Grwp Cleifion, yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), rhaid i'r person sy'n cyflenwi'r cyffuriau godi a chasglu ffi o £6.00 oddi wrth y claf mewn perthynas â chyflenwi pob swm.

(2) Os oes ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1), wrth wneud y taliad rhaid i'r person sy'n talu lofnodi datganiad ysgrifenedig fod y ffi berthnasol wedi'i thalu.

(3) Rhaid peidio â chodi na chasglu ffi o dan y rheoliad hwn oddi wrth glaf sy'n esempt -

(a) o dan baragraff 1(1)(a) i (d) o Atodlen 12 i'r Ddeddf.

(b) o dan reoliad 8, neu

(c) am fod gan y claf hawl i beidio â thalu ffi o dan reoliad 3 o Reoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl,

ac sydd, yn yr achos a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(c) o Atodlen 12 i'r Ddeddf ac yn yr achosion a ddisgrifir yn is-baragraffau (b) ac (c), yn cwblhau datganiad o hawl i gael esemptiad o'r fath neu i beidio â thalu ffi ac yn darparu unrhyw dystiolaeth o'r hawl y mae'r person sy'n cyflenwi'r cyffur yn gofyn yn rhesymol amdani.

(4) Rhaid peidio â chodi na chasglu ffi o dan y rheoliad hwn os yw'r cyffur yn cael ei gyflenwi i gael ei roi'n bersonol gan y person sy'n ei gyflenwi yn unol â'r Cyfarwyddyd Grwp Cleifion.

(5) Os yw'r claf yn gofyn felly, rhaid i berson sy'n codi ac yn casglu ffi o dan y rheoliad hwn roi derbynneb i'r claf am y swm a gafwyd ar ffurflen y mae'n rhaid iddi gynnwys ffurf datganiad i ategu cais am ad-daliad a gwybodaeth ynghylch i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r cyfeiriad at gyflenwi cyffur yn unol â Chyfarwyddyd Grwp Cleifion yn gyfeiriad at gyflenwi cyffur at y diben hwnnw y darperir ar ei gyfer yng Ngorchymyn Meddyginiaethau (Gwerthu gan Fferyllfeydd ac yn Gyffredinol - Esemptiad) 1980(a) neu yng Ngorchymyn Meddyginiaethau Presgripsiwn yn Unig (Defnydd Dynol) 1997(b).

## Supply of drugs under Patient Group Directions

7.-(1) Where drugs are supplied to a patient in accordance with a Patient Group Direction the person supplying the drugs shall, subject to paragraphs (3) and (4), make and recover from the patient, in respect of the supply of each quantity, a charge of £6.00.

(2) Where a charge is paid under paragraph (1), the person making the payment shall on doing so sign a declaration in writing that the relevant charge has been paid.

(3) No charge shall be made and recovered under this regulation from a patient who is exempt -

(a) under paragraph 1(1)(a) to (d) of Schedule 12 to the Act,

(b) under regulation 8, or

(c) by reason of being entitled to remission under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations.

and who, in the case described in paragraph 1(1)(c) of Schedule 12 of the Act and in the cases described in sub-paragraphs (b) and (c), completes a declaration of entitlement to such exemption or remission and provides such evidence of entitlement as the person supplying the drug may reasonably require.

(4) No charge shall be made and recovered under this regulation where the drug is supplied for personal administration by the person making the supply in accordance with the Patient Group Direction.

(5) A person making and recovering a charge under this regulation shall, if so required by a patient, give him a receipt for the amount received on a form which shall contain forms of declaration in support of an application for repayment and information as to whom an application for repayment shall be made.

(6) For the purposes of this regulation the reference to the supply of a drug in accordance with a Patient Group Direction is a reference to the supply of a drug for that purpose as provided for in the Medicines (Pharmacy and General Sale - Exemption) Order 1980(a) or in the Prescription Only Medicines (Human Use) Order 1997(b).

---

(e) O.S.1980/1924

(f) O.S.1997/1830

---

(a) S.I.1980/1924

(b) S.I.1997/1830

## Esemptiadau

8.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd unrhyw ffi yn daladwy o dan reoliadau 3, 4, 6 neu 7 -

- (a) gan berson sydd o dan 25 mlwydd oed;
- (b) gan berson sydd wedi cyrraedd 60 mlwydd oed;
- (c) gan fenyw a chanddi dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi gan Awdurdod Iechyd ar y sail ei bod yn disgwyl baban neu ei bod wedi esgor yn ystod y deuddeng mis diwethaf ar blentyn byw neu blentyn a oedd yn gofrestradwy fel plentyn marwanedig o dan Ddeddf Cofrestru Genediaethau a Marwolaethau 1953(a) neu a chanddi dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
- (ch) gan berson a chanddo dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi gan Awdurdod Iechyd ar y sail ei fod yn dioddedf un neu ragor o'r anhwylderau canlynol -
  - (i) ffistwla parhaol (gan gynnwys caecostomi, colostomi, laryngostomi neu ileostomi) y mae angen rhwymyn llawfeddygol parhaus neu gyfarpar ar ei gyfer;
  - (ii) yr anhwylderau canlynol -

mathau o hypoadrenalinedd (gan gynnwys clefyd Addison) y mae'n hanfodol cael therapi amnewid penodol ar eu cyfer

diabetes insipidus a mathau eraill o hypopituitarid

diabetes mellitus - ac eithrio os yw'n cael ei drin drwy'r deiet yn unig

hypoparathyroidedd

myasthenia gravis

myxoedema

- (iii) epilepsi y mae angen triniaeth barhaus ar ei gyfer i atal confylsiynau;
- (iv) anabledd corfforol parhaus sy'n atal y claf rhag ymadael â'i breswylfa heb gymorth person arall;

na chan berson a chanddo dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

- (d) gan berson a chanddo dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chyflenwi cyffuriau a chyfarpar i drin anabledd wedi'i dderbyn, ond yn y naill achos neu'r llall, dim ond mewn perthynas â'r cyflenwadau y mae'r dystysgrif yn ymwneud â hwy;

(a) 1953 (p. 20)

## Exemptions

8.-(1) Subject to paragraph (3), no charge shall be payable under regulations 3, 4, 6 or 7 by -

- (a) a person who is under 25 years of age;
- (b) a person who has attained the age of 60 years;
- (c) a woman with a valid exemption certificate issued by a Health Authority on the ground that she is an expectant mother or has within the last twelve months given birth to a live child or a child registrable as still-born under the Births and Deaths Registration Act 1953(a) or with a valid exemption certificate issued under equivalent arrangements having effect in England, Scotland or Northern Ireland;
- (d) a person with a valid exemption certificate issued by a Health Authority on the ground that he or she is suffering from one or more of the following conditions -
  - (i) permanent fistula (including caecostomy, colostomy, laryngostomy or ileostomy) requiring continuous surgical dressing or an appliance;
  - (ii) the following disorders -

forms of hypoadrenalism (including Addison's disease) for which specific substitution therapy is essential

diabetes insipidus and other forms of hypopituitarism

diabetes mellitus - except where treatment is by diet alone

hypoparathyroidism

myasthenia gravis

myxoedema

- (iii) epilepsy requiring continuous anti-convulsive therapy;
- (iv) a continuing physical disability which prevents the patient from leaving his residence without the help of another person;

or by a person with a valid exemption certificate issued under equivalent arrangements having effect in England, Scotland or Northern Ireland;

- (e) a person with a valid exemption certificate issued by the National Assembly in respect of the supply of drugs and appliances for the treatment of accepted disablement, but in either case only in respect of those supplies to which the certificate relates;
- (f) a person with a valid pre-payment certificate or

(a) 1953 (c. 20)

(dd) gan berson a chanddo dystysgrif rhagdalu ddilys neu dystysgrif ragdalu ddilys wedi'i rhoi o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd unrhyw ffi yn daladwy o dan reoliad 5 -

(a) mewn perthynas â chyflenwi cyfarpar a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1 gan berson o ddisgrifiad a bennir ym mharagraff (1)(d);

(b) mewn perthynas â chyflenwi cyfarpar nad yw wedi'i bennu felly neu gyflenwi teits neu gyffuriau, gan berson o ddisgrifiad a bennir yn unrhyw o is-baragraffau (b) i (dd) o baragraff (1).

(3) Rhaid i berson sy'n dymuno gwneud cais am yr hawl i esemptiad o dan baragraff (1) neu (2) ddarparu unrhyw ddatganiad o hawl sy'n angenrheidiol o dan reoliad 3(3) neu 4(3) ac unrhyw ddatganiad neu dystiolaeth o hawl sy'n angenrheidiol o dan reoliadau 5(3), 6(3) neu 7(3).

(4) Yn achos person y cyfeirir ato yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl, rhaid peidio â chodi ffi y cyfeirir ati yng ngholofn (1) o Atodlen 1 i'r graddau a bennir yn y rheoliad hwnnw.

(5) Pan beidir â chodi ffi yn rhannol o dan baragraff (4) rhaid i'r person sy'n gwneud y taliad rhannol lofnodi datganiad ysgrifenedig wrth wneud hynny fod y rhan berthnasol o'r ffi wedi'i thalu a chwblhau datganiad o hawl, a darparu unrhyw dystiolaeth arall o'r hawl i beidio â thalu rhan o'r ffi y gofynnir amdani.

(6) Caiff esemptiad drwy gyfeirio at oedran neu ddilysrwydd tystysgrif esemptio eu penderfynu drwy gyfeirio at yr oedran neu'r dilysrwydd ar y diwrnod -

(a) y cyflwynir yr archeb am gyffuriau neu gyfarpar i'w pharatoi, yn achos gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferylllydd;

(b) y caiff y cyffuriau neu'r cyfarpar eu cyflenwi, mewn unrhyw achos arall.

(7) Os oes hawliad am esemptiad wedi'i wneud ond heb ei gadarnhau ac nad oes ffi wedi'i chasglu yn sgil yr hawliad, rhaid i'r Awdurdod Iechyd neu, os yw'r cyffuriau neu'r cyfarpar wedi'u cyflenwi gan ymddiriedolaeth NHS, rhaid i'r ymddiriedolaeth NHS honno gasglu'r ffi honno oddi wrth y person o dan sylw.

### **Tystysgrifau esemptio -gwneud cais amdanynt a'u rhoi**

9.-(1) Rhaid i berson sy'n dymuno gwneud hawliad am esemptiad o dan ddarpariaethau rheoliad 8(1)(c), (ch) neu (d) wneud cais am dystysgrif sy'n rhoi'r esemptiad (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "tystysgrif esemptio") i'r Awdurdod Iechyd yn achos

with a valid pre-payment certificate granted under equivalent arrangements having effect in England, Scotland or Northern Ireland.

(2) Subject to paragraph (3), no charge shall be payable under regulation 5 -

(a) in respect of the supply of an appliance specified in column (1) of Schedule 1 by a person of a description specified in paragraph (1)(e);

(b) in respect of the supply of an appliance not so specified or of tights or of drugs, by a person of a description specified in any of subparagraphs (b) to (f) of paragraph (1).

(3) A person who wishes to claim entitlement to exemption under paragraph (1) or (2) shall provide any declaration of entitlement required under regulations 3(3) or 4(3) and any declaration or evidence of entitlement required under regulations 5(3), 6(3) or 7(3).

(4) A charge referred to in column (1) of Schedule 1 shall, in the case of a person referred to in regulation 5 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations, be remitted to the extent specified in that regulation.

(5) Where a charge is remitted in part under paragraph (4) the person making the part payment shall on doing so sign a declaration in writing that the relevant part of the charge has been paid and complete a declaration of entitlement, and provide such other evidence of entitlement, to partial remission as may be required.

(6) An exemption by reference to age or the validity of an exemption certificate shall be determined by reference to the age or validity on the day on which -

(a) in the case of pharmaceutical services provided by a chemist, the order for drugs or appliances is presented for dispensing;

(b) in any other case, the drugs or appliances are supplied.

(7) Where a claim to exemption has been made but is not substantiated and in consequence of the claim a charge has not been recovered, the Health Authority or, where the drugs or appliances were supplied by an NHS trust, that NHS trust shall recover such charge from the person concerned.

### **Certificates of exemption - application and issue**

9.-(1) A person who wishes to claim exemption under the provisions of regulation 8(1)(c), (d) or (e) shall apply for a certificate conferring exemption (in these Regulations referred to as an "exemption certificate") to the Health Authority in the case of an

esemptiad o dan is-baragraff (c) neu (ch) ar ffurflen a roddir at y diben hwnnw ac yn achos esemptiad o dan is-baragraff (d) i un o swyddfydd yr Adran Nawdd Cymdeithasol ar ffurflen a roddir at y diben hwnnw gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Pan gaiff Awdurdod Iechyd ei fodloni fod gan geisydd hawl i gael esemptiad o dan baragraff (1)(c), rhaid iddo roi tystysgrif esemptio a fydd yn ddilys -

- (a) yn achos mam sy'n disgwyl baban tan ddiwedd ei beichiogrwydd ac, os yw'n esgor ar blentyn byw neu ar blentyn sy'n gofrestradwy fel un marwanedig o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, tan ddiwedd y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau gyda'r dyddiad y disgwylir iddi esgor;
- (b) yn achos mam sydd wedi esgor ar blentyn, tan ddiwedd y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar ddyddiad geni'r plentyn hwnnw.

(3) Pan gaiff Awdurdod Iechyd ei fodloni bod gan geisydd nad yw'n berson sydd â hawl i gael esemptiad o dan ddarpariaethau rheoliad 8(1)(a) neu (b) hawl i gael esemptiad o dan reoliad 8(1)(ch), rhaid iddo roi tystysgrif esemptio i'r ceisydd a fydd yn ddilys am unrhyw gyfnod y bydd yr Awdurdod Iechyd yn penderfynu arno.

(4) Os caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei fodloni bod gan geisydd hawl i gael esemptiad o dan reoliad 8(1)(d), rhaid iddo roi tystysgrif esemptio i'r ceisydd a fydd yn ddilys am unrhyw gyfnod y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu arno.

### **Tystysgrifau rhagdalau**

**10.-(1)** Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, pan delir y swm perthnasol a ragnodir gan baragraff (5), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol rhaid i Awdurdod Iechyd roi tystysgrif (y cyfeirir ati yn y rheoliadau hyn fel "tystysgrif ragdalu") i unrhyw berson sy'n cwblhau'n briodol ac yn cyflwyno cais am y dystysgrif ar ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw.

(2) Bydd tystysgrif ragdalu yn ddilys am gyfnod o naill ai pedwar mis neu ddeuddeng mis a rhaid i gais am dystysgrif o'r fath nodi am ba gyfnod y gofynnir iddi fod yn ddilys.

(3) Mae tystysgrif ragdalu, o'i rhoi, yn rhoi esemptiad i'r person y'i rhoddir iddo fel y darperir ar ei gyfer gan reoliad 8(1)(dd) mewn perthynas â chyffuriau a chyfarpar a gyflenwir yn ystod y cyfnod y bydd yn ddilys.

(4) Rhaid peidio â rhoi unrhyw dystysgrif ragdalu oni bai bod y cais a wneir amdani yn dod i law lai nag un mis cyn y dyddiad y mae ei chyfnod dilysrwydd i ddechrau.

exemption under sub-paragraph (c) or (d) on a form supplied for that purpose and in the case of an exemption under sub-paragraph (e) to an office of the Department of Social Security on a form supplied for that purpose by the National Assembly.

(2) A Health Authority, on being satisfied that an applicant is entitled to exemption under paragraph (1)(c), shall issue an exemption certificate which shall be valid -

- (a) in the case of an expectant mother until the end of her pregnancy and, where she gives birth to a live child or a child registrable as still-born under the Births and Deaths Registration Act 1953, until the end of the period of twelve months beginning with the expected date of confinement;
- (b) in the case of a mother who has given birth to a child, until the end of the period of twelve months beginning with the date of birth of that child.

(3) A Health Authority, on being satisfied that an applicant, not being a person entitled to exemption under the provisions of regulation 8(1)(a) or (b) is entitled to exemption under regulation 8(1)(d) shall issue to the applicant an exemption certificate which shall be valid for such period as it may determine.

(4) The National Assembly, on being satisfied that an applicant is entitled to exemption under regulation 8(1)(e), shall issue to the applicant an exemption certificate which shall be valid for such period as it may determine.

### **Pre-payment certificates**

**10.-(1)** Subject to the following provisions of this regulation, a Health Authority on payment of the relevant sum prescribed by paragraph (5) shall as soon as reasonably practicable grant a certificate (in these regulations referred to as a "pre-payment certificate") to any person who duly completes and submits an application for it on a form provided for the purpose.

(2) A pre-payment certificate shall be valid for a period of either four months or twelve months and an application for such a certificate shall indicate the period for which it is required to be valid.

(3) A pre-payment certificate which is granted confers on the person to whom it is granted exemption as provided by regulation 8(1)(f) in respect of drugs and appliances supplied during the period for which it is valid.

(4) No pre-payment certificate shall be granted unless the application made for it is received less than one month before the date on which its period of validity is to begin.

(5) For the purposes of this regulation the

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, y swm rhagnodedig yw £31.40 am dystysgrif ragdalu sy'n ddilys am bedwar mis ac £86.20 am dystysgrif ragdalu sy'n ddilys am ddeuddeng mis.

(6) Os oes swm rhagnodedig wedi'i dalu o dan y rheoliad hwn a bod y person y talwyd mewn perthynas ag ef, heb fod yn fwy na mis ar ôl y dyddiad y daeth ei dystysgrif ragdalu yn ddilys -

- (a) yn dod yn berson y mae unrhyw un o ddarpariaethau rheoliad 8(1)(b) i (d) yn gymwys iddo;
- (b) neu'n dod yn berson sydd â hawl i beidio â thalu o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl; neu
- (c) yn marw; neu
- (ch) yn dod yn breswlydd mewn ysbyty ac wedyn naill ai -
  - (i) yn marw tra bo'n preswyllo yn yr ysbyty cyn i'r dystysgrif ragdalu ddod i ben; neu
  - (ii) yn aros yn yr ysbyty nes i'r dystysgrif ragdalu ddod i ben;

gall cais am ad-dalu'r swm hwnnw gael ei wneud, gan neu ar ran y person hwnnw neu ei ystâd, yn unol â pharagraffau (7) ac (8).

(7) Rhaid i gais o dan baragraff (6) gael ei wneud i'r Awdurdod Iechyd a roddodd y dystysgrif a chydag ef rhaid cynnwys y dystysgrif (os cafodd un ei rhoi) a datganiad i ategu'r cais, a rhaid i'r cais ac unrhyw ad-daliad gael ei wneud mewn unrhyw fodd, ac o dan unrhyw amodau, y penderfynir arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(8) Rhaid i gais o dan baragraff (6) gael ei wneud -

- (a) mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (6)(a), (b) neu (c), heb fod yn fwy na phedwar mis ar ôl y dyddiad y daeth y dystysgrif ragdalu yn ddilys;
- (b) mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (6)(ch)(i), heb fod yn fwy na thri mis ar ôl dyddiad y marwolaeth; neu
- (c) mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (6)(ch)(ii), heb fod yn fwy na thri mis ar ôl y dyddiad y daeth y dystysgrif ragdalu i ben.

#### **Ad-dalu ffioedd**

**11.-(1)** Os oes ffi wedi'i thalu o dan y Rheoliadau hyn gan neu ar ran person a oedd adeg y taliad yn esempt rhag y gofyniad i dalu'r ffi, gall cais am ad-dalu'r ffi gael ei wneud yn unol â pharagraff (2) gan neu ar ran y person hwnnw.

(2) Rhaid i'r cais am ad-daliad -

prescribed sum shall be £31.40 for a pre-payment certificate valid for 4 months and £86.20 for a pre-payment certificate valid for 12 months.

(6) Where payment of a prescribed sum has been made under this regulation and, not more than one month after the date on which his pre-payment certificate became valid, the person in respect of whom payment was made -

- (a) becomes a person to whom any of the provisions of regulation 8(1)(b) to (e) applies;
- (b) or becomes a person entitled to remission under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations; or
- (c) dies; or
- (d) becomes resident in a hospital and thereafter either -
  - (i) dies while resident in hospital before the expiry of the pre-payment certificate; or
  - (ii) remains in hospital until the expiry of the pre-payment certificate;

an application for repayment of that sum may be made, by or on behalf of that person or his or her estate, in accordance with paragraphs (7) and (8).

(7) An application under paragraph (6) shall be made to the Health Authority that granted the certificate and shall be accompanied by the certificate (where granted) and a declaration in support of the claim, and the claim and any repayment shall be made in such manner and subject to such conditions as the National Assembly may determine.

(8) An application under paragraph (6) shall be made -

- (a) in a case falling within paragraph (6)(a), (b) or (c), not more than four months after the date on which the pre-payment certificate became valid;
- (b) in a case falling within paragraph (6)(d)(i), not more than three months after the date of death; or
- (c) in a case falling within paragraph (6)(d)(ii), not more than three months after the date on which the pre-payment certificate expired.

#### **Repayment of charges**

**11.-(1)** Where a charge has been paid under these Regulations by or on behalf of a person who was at the time of payment exempt from the requirement to pay that charge, an application for repayment of that charge may be made in accordance with paragraph (2) by or on behalf of that person.

(2) The application for repayment shall -

- (a) cael ei wneud i'r person neu'r corff a bennir yn y dderbynneb a roddir o dan reoliad 3(6), 4(6), 5(6), 6(5), neu 7(5) fel y person neu'r corff y mae'n rhaid gwneud cais am ad-dalu ffioedd iddo;
- (b) cael ei wneud mewn unrhyw ffurf a modd y gall y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu arnynt ar gyfer y ceiswyr, unrhyw ddsbarth o geisydd neu geiswyr yn gyffredinol;
- (c) cael ei wneud o fewn tri mis o'r dyddiad y cafodd y cyffur neu'r cyfarpar eu cyflenwi i'r ceisydd neu o fewn unrhyw gyfnod y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei ganiatáu am reswm da;
- (ch) cael ei gyflwyno ynghyd â'r dderbynneb am y ffi a dalwyd a datganiad o'r seiliau dros yr esemptiad.

(3) Yn achos ffi o dan reoliad 5 mewn perthynas â chyfarpar a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1, rhaid cyflwyno'r cais ynghyd â'r dystysgrif esemptio y cyfeirir ati yn rheoliad 8(1)(d) ac, os cafodd y claf ei atgyfeirio gan feddyg at yr Awdurdod Iechyd neu'r ymddiriedolaeth NHS i gael ei drin, naill ai -

- (a) tystysgrif gan y meddyg yn ardystio bod y driniaeth yn driniaeth ar gyfer anabledd wedi'i dderbyn; neu
- (b) datganiad bod tystysgrif o'r fath wedi'i hildio i'r Awdurdod Iechyd neu'r ymddiriedolaeth NHS cyn i'r cyfarpar gael ei gyflenwi.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer ad-dalu unrhyw ffi a dalwyd o dan y Rheoliadau hyn gan berson y mae ganddo hawl i gael esemptiad.

### **Trefniadau rhwng cyrff yr NHS ac Awdurdodau Lleol**

**12.** Ni fydd unrhyw drefniadau a wneir yn rhinwedd adran 31(2)(c) o Ddeddf Iechyd 1999 (trefniadau rhwng cyrff yr NHS ac awdurdodau lleol) i awdurdod lleol arfer unrhyw swyddogaethau sy'n perthyn i Awdurdod Iechyd neu ymddiriedolaeth NHS neu mewn cysylltiad â hynny, yn effeithio ar unrhyw bwr neu ddyletswydd i gasglu ffioedd mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir wrth arfer y swyddogaethau hynny a bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r swyddogaethau wedi'u harfer gan yr Awdurdod Iechyd neu'r ymddiriedolaeth NHS y gwnaed y trefniadau gyda hwy.

### **Diddymu**

**13.** Mae'r Rheoliadau a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 2 drwy hyn yn cael eu diddymu mewn perthynas â Chymru i'r graddau a bennir yng ngolofn (3) o'r Atodlen honno.

- (a) be made to the person or body specified in the receipt which is given under regulation 3(6), 4(6), 5(6), 6(5) or 7(5) as being the person or body to whom application for repayment of charges is to be made;
- (b) be made in such form and manner as the National Assembly may determine for the applicant, any class of applicant or applicants generally;
- (c) be made within 3 months from the date on which the drug or appliance was supplied to the applicant or within such period as the National Assembly may, for good cause, allow;
- (d) be accompanied by the receipt for the charge paid and a declaration as to the grounds of exemption.

(3) In the case of a charge under regulation 5 in respect of an appliance specified in column (1) of Schedule 1, the application shall be accompanied by the exemption certificate referred to in regulation 8(1)(e) and, if the patient was referred by a doctor to the Health Authority or NHS trust for treatment, either-

- (a) a certificate from the doctor certifying that the treatment was for accepted disablement; or
- (b) a statement that such a certificate was surrendered to the Health Authority or NHS trust before the supply of the appliance.

(4) The National Assembly shall make arrangements for the repayment of any charge paid under these Regulations by a person who is entitled to exemption.

### **Arrangements between NHS bodies and Local Authorities**

**12.** Any arrangements made by virtue of section 31(2)(c) of the Health Act 1999 (arrangements between NHS bodies and local authorities) for or in connection with the exercise by a local authority of any functions of a Health Authority or NHS trust shall not affect any power or duty to recover charges in respect of services provided in the exercise of those functions and these Regulations shall apply as if the functions were exercised by the Health Authority or NHS trust with which the arrangements were made.

### **Revocations**

**13.** The Regulations specified in column (1) of Schedule 2 are hereby revoked in relation to Wales to the extent specified in column (3) of that Schedule.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

29 Mawrth 2001

29th March 2001

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad  
Cenedlaethol

The Presiding Officer  
of the National Assembly

<b>ATODLEN 1</b>	<b>Rheoliad5(1)</b>
(1)	(2)
<b>Y Cyfarpar Penodedig</b>	<b>Y Ffi Benodedig</b>
Bronglwm Llawfeddygol	£20.30
Ateg i'r Abdomen neu'r Meingefn	£30.50
Wig Fodacrylig Stoc	£49.90
Wig Rannol o Wallt Dynol	£131.50
Wig Lawn Bwrpasol	£192.20

<b>SCHEDULE 1</b>	<b>Regulation5(1)</b>
(1)	(2)
<b>Specified Appliance</b>	<b>Specified Charge</b>
Surgical Brassiere	£20.30
Abdominal or Spinal Support	£30.50
Stock Modacrylic Wig	£49.90
Partial Human Hair Wig	£131.50
Full Bespoke Human	£192.20

---

(a) 1998 (p.38)

---

(a) 1998 (c.38)



## Y RHEOLIADAU SY'N CAEL EU DIDDYMU

(1)	(2)	(3)
Y Rheoliadau sy'n cael eu diddymu	Cyfeirnod	Hyd a lled y Diddymu
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1989	OS 1989/419	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1990	OS 1990/537	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1991	OS 1991/579	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1992	OS 1992/365	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1993	OS 1993/420	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1994	OS 1994/690	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1994	OS 1994/2402	rheoliad 3
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1995	OS 1995/643	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Rhif 2) 1995	OS 1995/2737	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1996	OS 1996/583	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 1998	OS 1998/491	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynlluniau Peilot: Darpariaethau Amrywiol a Diwygiadau Canlyniadol) 1998	OS 1998/646	rheoliad 9
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynlluniau Peilot Gwasanaethau Deintyddol Personol: Darpariaethau Amrywiol ac Diwygiadau Canlyniadol) 1998	OS 1998/222	4rheoliad 5
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar a Threuliau Teithio ac Pheidio â Chodi Tâl) 1999	OS 1999/767	Rheoliadau 2 a 3 a Atodlen
Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2000	OS 2000/1422	Y Rheoliadau cyfan

**SCHEDULE 2**

Regulation 13

**REGULATIONS REVOKED**

(1)	(2)	(3)
Regulations revoked	Reference	Extent of revocation
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Regulations 1989	SI 1989/419	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1990	SI 1990/537	The Whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1991	SI 1991/579	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1992	SI 1992/365	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1993	SI 1993/420	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1994	SI 1994/690	The whole Regulations
The National Health Service (Pharmaceutical Services and Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1994	SI 1994/2402	regulation 3
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1995	SI 1995/643	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment (No. 2) Regulations 1995	SI 1995/2737	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1996	SI 1996/583	The whole Regulations
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment Regulations 1998	SI 1998/491	The Whole Regulations
The National Health Service (Pilot Schemes: Miscellaneous Provisions and Consequential Amendments) Regulations 1998	SI 1998/646	regulation 9
The National Health Service (Pilot Schemes for Personal Dental Services: Miscellaneous Provisions and Consequential Amendments) Regulations 1998	SI 1998/2224	regulation 5
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances and Travelling Expenses and Remission of Charges) Amendment Regulations 1999	SI 1999/767	Regulations 2 and 3 and the Schedule
The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment (Wales) Regulations 2000	SI 2000/1422	The whole Regulations



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif 1358 (Cy. 86 )**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a  
Chyfarpar) (Cymru) 2001

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2001 No. 1358 (W. 86)**

**NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

National Health Service (Charges  
for Drugs and Appliances) (Wales)  
Regulations 2001

©☞ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery  
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr  
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.50**

W/241/05/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited  
under the authority and superintendence of Carol Tullo,  
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of  
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090203-3



9 780110 902036